

Ysgol Bro Alun
Rhodfa Delamere
Gwersyllt
Wrexham
LL11 4NG
Ffôn: 01978 269580
Ffacs: 01978 269589



Ysgol Bro Alun
Delamere Avenue
Gwersyllt
Wrexham
LL11 4NG
Tel: 01978 269580
Fax: 01978 269589

YSGOL BRO ALUN

Mr Osian Jones BA
Pennaeth Head Teacher

E-bost/E-mail: mailbox@broalun-pri.wrexham.sch.uk

Tachwedd 5ed 2018

Rhiant Lywodraethwr

Annwyl rieni,

Ddiwedd y mis hwn, bydd cyfnod Mrs Rhodd Arnold a Mrs Kendal Goode yn dod i ben fel rhieni lywodraethwyr yn cynrychioli'r ysgol ar gorff llywodraethol y ffederasiwn. Rydym yn ddiolchgar iawn iddyn nhw am eu gwaith caled a'u ymroddiad dros y pedair mlynedd diwethaf.

Ar bob corff llywodraethol ysgol, mae yna gynrychiolaeth o rieni yr ysgol ac mi yden ni felly yn edrych am ddau riant o Fro Alun i fod ar gorff llywodraethol y ffederasiwn. Os ydych â diddordeb mewn bod ar y corff llywodraethol, yna mae'n rhaid i chi gael eich enwebu gan riant arall yn yr ysgol neu fe allwch hunan enwebu. Os hoffech gael ffurflen i gael eich henwebu neu ar gyfer enwebu riant arall, maent ar gael o swyddfa'r ysgol. Rhaid i'r ffurflenni gael eu dychwelyd i'r ysgol erbyn **3:30pm ar ddydd Iau, Tachwedd 15fed**. Os bydd mwy nac un enwebiad, yna bydd rhaid cynnal etholiad i ethol rhiant lywodraethwr.

Mae ychydig o wybodaeth am beth yw rôl llywodraethwyr ar gael yn swyddfa'r ysgol, ac ochr arall y llythyr yma ac ar app / safle gwe'r ysgol.

Diolch yn fawr

Osian Jones

Swyddogaeth Llywodraethwr Ysgol

Mae tua 22,200 o lywodraethwyr ysgol yng Nghymru. Maent yn rhoi eu hamser, eu sgiliau a'u harbenigedd yn wirfoddol, i helpu eu hysgolion i roi'r addysg orau bosibl i'w plant.

Mae cyrff llywodraethu yn atebol am gyfeiriad strategol eu hysgol ac am ansawdd yr addysg a ddarperir.

Pam dod yn Llywodraethwr?

- I wneud cyfraniad pwysig i addysg trwy gefnogi cymuned yr ysgol, ei staff a'r disgyblion a helpu i godi safonau addysg
- I brofi cyfleoedd gwerth chweil a heriol
- I helpu i ddatblygu eich sgiliau presennol a hefyd i ddysgu rhai newydd
- I gyfarfod a gweithio â phobl newydd
- I ennill ymwybyddiaeth o'r system addysg

Mae Llywodraethwr yn wirfoddolwr sydd:

- â diddordeb mewn addysg;
- yn cynrychioli rhai sydd â diddordeb allweddol yn yr ysgol;
- yn rhan o dîm sy'n derbyn cyfrifoldeb am bopeth y mae ysgol yn ei wneud;
- ag amser i ymrwymo i gyfarfodydd ac achlysuron eraill;
- yn barod i ddysgu;
- yn gallu gweithredu fel ffrind beirniadol sy'n cefnogi'r ysgol, ond hefyd yn herio ac yn gofyn cwestiynau am sut y mae'r ysgol yn gweithio a'r safonau y mae'n ei chyflawni;
- gweithredu fel dolen gyswllt rhwng rhieni, y gymuned leol, yr Awdurdod Lleol a'r ysgol.

Tair rôl allweddol y Corff Llywodraethu

- 1 - Darparu safbwynt strategol
- 2 - Gweithredu fel cyfaill beirniadol
- 3 - Sicrhau atebolrwydd

Cymorth a Hyfforddiant

I lywodraethwyr gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol ac i safon uchel mae angen iddynt gael eu hyfforddi'n briodol. Mae'n rhaid i lywodraethwr newydd fynd i hyfforddiant Cyflwyniad Llywodraethwyr a Deall Data Ysgolion o fewn 12 mis o gael eu penodi.

Mae ymrwymiad i ddatblygiad llywodraethwyr yn agwedd bwysig ar fod yn gorff llywodraethu effeithiol, ond nid yw hyfforddiant yn dod i ben yn y cam cyflwyno. Mae yna nifer o gyrsiau hyfforddiant ychwanegol ar gael, a ddarperir gan Awdurdodau Lleol, i gynorthwyo pob llywodraethwr i ennill y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i lywodraethu eu hysgol yn effeithiol.